# Diweddariad Covid-19 – Cyflenwadau Nwyddau a Phorthiant

*Mae'r wybodaeth yn gywir am 2:00 ar 27.03.2020*

- Caniatewch fwy o amser i archebion gael eu danfon
- Gwnewch gynlluniau wrth gefn rhag ofn na fydd cynhyrchion ar gael
- Adolygwch eich stoc o nwyddau a phorthiant yn rheolaidd
- Byddwch yn wyliadwrus am ddarpar brisiau cynhwysion porthiant unigol ac ewch ati i archebu pan gyfyd cyfleoedd
- Dilynwch gyngor milfeddygon ynghylch dewisiadau amgen yn lle moddion amgen neu gynhyrchion i ategu moddion

## Nwyddau:

Tra byddwn ni'n wynebu cyfyngiadau Covid-19, rydym ni'n rhagweld y posibilrwydd y bydd angen mwy o amser i gyflenwi rhai nwyddau penodol neu y gallant fod yn brin.

. Sicrhewch eich bod chi'n cyfathrebu'n dda â'ch cyflenwyr, ystyriwch eu ffynhonnell gweithgynhyrchu, a sicrhewch fod gennych chi gynlluniau wrth gefn yn eu lle fel na fydd cyflenwadau yn dod i ben.

Dylech chi ganiatáu mwy o amser i ddanfon nwyddau ac archebu nwyddau yn brydlon. Mae llawer o gyflenwyr yn cyfyngu ar faint y trosglwyddiadau, felly mae'n debyg y bydd angen i chi archebu'n amlach. Mae cynllunio cyflenwadau'r dyfodol yn bwysig, a dylech chi ystyried beth arall allwch chi ei ddefnyddio os na fydd cynnyrch ar gael.

Yn aml iawn, bydd nwyddau eraill ar gael yn lle llawer o gynnyrch, a rhag ofn y bydd prinder nwyddau tafladwy, mae defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio yn bwysig, er enghraifft, tyweli golchadwy a pheiriant golchi neu ddefnyddio hylif dipio/chwistrellu tethi yn lle clytiau llaith meddyginiaethol.

O ran moddion, rydym ni'n cynghori y dylid eu defnyddio'n ofalus a dylid ystyried cyflenwadau a chynhyrchion amgen. Mae defnyddio dulliau gofal atodol megis moddion gwrthlidiol a hylifau yn bwysig. Fe wnaiff y dulliau hyn helpu i leihau'r defnydd o nwyddau gwrthficrobaidd ar y fferm. Yn y lle cyntaf, yn achos salwch ysgafn, dylid darparu gofal ategol, ac efallai bydd hyn yn ddigon i symbylu gwellhad heb ddefnyddio moddion (mynnwch gyngor milfeddyg bob amser).

Mae nwyddau diheintio yn bwysig ar yr adeg hon. Bydd sicrhau fod crynoadau cywir o gynhyrchion yn cael eu defnyddio a'u mesur yn gywir yn helpu i osgoi gwastraff ac yn sicrhau amseroedd cywir i ladd pathogenau.

Mae diweddariadau am gyflenwadau moddion milfeddygol ar gael gan eich milfeddyg lleol ac ar wefan NOAH. ***https://www.noah.co.uk/focus-areas/covid-19-information-for-the-animal-health-sector/***

## Marchnadoedd porthiant:

- Mae pandemig Covid-19 yn achosi anwadalrwydd sylweddol ym marchnadoedd porthiant y bydd
- Mae prisiau gwenith LIFFE ar gyfer Mai a Thachwedd 2020 yn oddeutu £15/t (neu 10%) yn uwch ers y mis diwethaf, sef £166/t ar gyfer Mai 2020 a £176/t ar gyfer Tachwedd 2020
- Prisiau uwch yn nes ymlaen oherwydd pryderon ynghylch cyfanswm cynnyrch y DU/UE ag arwynebedd isel o wenith wedi'i blannu a gaeaf neilltuol o wlyb
- Mae'r galw am fioethanol wedi gostwng yn sgil prisiau isel iawn am olew, sydd bellach yn oddeutu $24 y gasgen = cwymp o 50% yn y mis diwethaf
- Bydd cyflenwadau is o Indrawn Distyllwyr o'r Unol Daleithiau o wenith distyllwyr o weithfeydd yn yr UE
- Gostyngiad tebyg yn y galw am fiodiesel yn yr UE. Gallai rhai gweithfeydd orfod cwtogi cynhyrchu neu gau
- Bydd hyn yn arwain at gyflenwadau is o flawd rêp
- Mae blawd rêp dros ben yn anodd ei ganfod ac yn ddrud – oddeutu £250-£260 y dunnell
- Mae darpar brisiau Awst/Hydref 2020 yn oddeutu £200/t o borthladd Erith, felly mae'n werth archebu ymlaen llaw nawr
- Mae'r Ariannin yn cyflenwi oddeutu 40% o flawd ffa soia'r byd. Mae anawsterau gwleidyddol, streicio mewn porthladdoedd a rhagofalon Covid-19 yn arafu cyflenwadau
- Ar hyn o bryd, mae prisiau blawd ffa soia yn y DU yn oddeutu £395/t am flawd sy'n cael ei gludo'n uniongyrchol o borthladdoedd, cynnydd o tua £90/t (28%) yn ystod y mis diwethaf

*Paratowyd Kite Consulting*